



Rheolwr Cyflogres Cynorthwyol - GRADD 8 CYFLOG: £23,866 - £25,463 y flwyddyn

(Noder: mae pob cyflog yn amodol ar werthusiad swydd)

Parhaol: 37 awr yr wythnos : Rhif y Swydd: NU077

Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru yw un o Wasanaethau Tân ac Achub mwyaf blaenllaw y DU a'r mwyaf o'r tri Gwasanaeth Tân ac Achub yng Nghymru. Mae ardal ein Gwasanaeth yn ymestyn o Gas-gwent yn y Dwyrain i Bort Talbot yn y Gorllewin ac o arfordir y De i Fannau Brycheiniog yn y Gogledd. Rydym yn gweithredu o 49 o orsafoedd tân ar draws ardal y Gwasanaeth ac mae ein Pencadlys, lle lleolir y swydd hon, yn Llantrisant.

Ai chi yw hwn?

Rydym yn chwilio am berson profiadol, proffesiynol, brwdfrydig a threfnus i weithio o fewn ein Tîm Cyflogres, Pensiynau a Chyllideb prysur. Bydd y rôl hon yn cynorthwyo'r Rheolwr Cyflogres ynghyd â bod yn gyfrifol am reoli a chefnogi 2 Swyddog Cyflogau o ddydd i ddydd a'r prosesau dyddiol y mae'r tîm hwn yn gyfrifol amdanynt.

Mae'r rhain yn cynnwys, ond nid yn gyfyngedig i, sicrhau y cedwir o fewn terfynau talu cyflogau, rheoli adnoddau staff dyddiol, monitro dangosyddion rheoli perfformiad sy'n ymwneud â chyflogau, cynnal system gyflogres electronig y Gwasanaeth, sicrhau y cymhwysir y Telerau ac Amodau a'r cyflogau fel y nodwyd gan y Cyd-gyngor Cenedlaethol yn gywir, cyfrifo unrhyw dan-daliadau neu or-daliadau cyflog, paratoi datganiadau BACS a sicrhau cyflwyniadau misol datganiadau FPS ac EPS i CThEM.

Yn ychwanegol, profiad wrth gyfrifo taliadau statudol a galwedigaethol megis taliadau Salwch, Mamolaeth ac Absenoldeb Rhiant. Mae cyswllt ag asiantaethau allanol fel Gwasanaeth Llysoedd ei Mawrhydi, CThEM, yr Asiantaeth Cynnal Plant ac Awdurdodau Lleol hefyd yn allweddol i'r rôl hon, felly bydd agwedd gwasanaeth cwsmer ardderchog yn hanfodol. Mae'r rôl hon hefyd yn cynnwys darparu gwybodaeth allweddol i reolwyr y Gwasanaeth.

Mae ein Gwasanaeth yn chwilio i wobrwyo ein talent â pheccyn cynhwysfawr gan gynnwys cyflog cystadleuol, cyfle gweithio'n hyblyg, hyd at 35 diwrnod o wyliau'r flwyddyn (ynghyd â Gwyliau Banc), opsiynau pensiwn ardderchog a gostyngiadau mewn siopau. Mae sgiliau Iaith Gymraeg yn ddymunol ar gyfer y swydd hon ond nid yn hanfodol.

Gellir canfod mwy o fanylion mewn perthynas â'r swydd hon o fewn y Swydd-Ddisgrifiad a'r Fanyleb Person, neu am ragor o wybodaeth, cysylltwch â Clare Smith, Rheolwr Cyflogres ar 01443 232078 neu Kim Jeal, Cyfrifydd (Gwasanaethau Pobl) ar 01443 232189. Fel arall, cewch anfon e-bost atom ar: c-smith@decymru-tan.gov.uk neu k-jeal@decymru-tan.gov.uk.

Gellir lawr lwytho Ffurflen Gais, Swydd Ddisgrifiad a Manyleb Person o dudalen Gweithio i Ni /Swyddi Gwag Diweddaraf ar ein gwefan ar www.decymru-tan.gov.uk. Y dyddiad cau ar gyfer derbyn ffurflenni cais yw 28/03/2019 am 12:00 canol dydd. Dylid dychwelyd ceisiadau gorffenedig at: Y Tîm Recriwtio ac Adnoddau, Pencadlys Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru, Parc Busnes Forest View, Llantrisant CF72 8LX neu drwy law e-bost: personel@decymru-tan.gov.uk Mae'r dyddiad ar gyfer y broses ddethol eto i'w gadarnhau.

Bydd angen i'r ymgeisydd llwyddiannus ymgymryd â Phrawf Cyffuriau ac Alcohol a Gwiriad gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd cyn y gwneir unrhyw benodiad.

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg. Mae croeso i chi gyfathrebu â ni naill ai yn Saesneg neu yn Gymraeg. Ni chaiff ffurflenni cais a gyflwynir yn Gymraeg eu trin yn llai ffafriol.

Mae Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru'n credu yng ngwir werth gweithlu amrywiol ac rydym yn dymuno annog yn aqweithiol ymgeiswyr o bob sector cymdeithas i ymgeisio.